

## PRIFFYRDD CYMRU

2010 Rhif 56

### DEDDF PRIFFYRDD 1980

#### GORCHYMYN CEFNFFORDD ABERGWAUN I FANGOR (YR A487) (GWELLIANT TŶ CERRIG, GARNDOLBENMAEN) (FFYRDD YMYL) 2010

*Gwnaed* 21 Rhagfyr 2010

*Yn dod i rym* 6 Ionawr 2011

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1), a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi mewn perthynas â'r gefnffordd yn Nhŷ Cerrig, Garndolbenmaen, yn Sir Gwynedd—

- (a) i wneud y gwaith o wella priffyrdd;
- (b) i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
- (c) i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd ac
- (ch) i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd.

2. (1) Dangosir y gwaith a awdurdodir gan erthygl 1 ar yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ac fe'i dynodir ar y plan a adneuwyd sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn yn y dull canlynol:-

- (a) dangosir y rhannau o briffordd sydd i'w gwella â llinellau rhesog;
- (b) caiff darnau a rhannau o briffordd sydd i'w cau eu disgrifio (gan nodi mai amcangyfrif yn unig yw pob pellter a roddir) ac fe'u dangosir â llinellau rhesog du a gwyn;
- (c) caiff darnau a rhannau o fynedfeydd preifat sydd i'w cau eu disgrifio (gan nodi mai amcangyfrif yn unig yw pob pellter a roddir) a rhoddir iddynt rifau cyfeiriadol a ddangosir ar y plan a

adnewwyd ac fe'u dangosir â bandiau du ac

- (ch) dangosir mynedfeydd newydd sydd i'w darparu ar yr Atodlen drwy ddefnyddio'r rhifau a'r llythrennau cyfeiriadol a roddir i'r mynedfeydd hynny ar y plan a adnewwyd. Pan fydd mynedfa newydd i'w darparu mewn cysylltiad â chau darn o fynedfa breifat a ddisgrifir yn yr Atodlen honno, rhoddir y rhif cyfeiriadol a'r llythyren gyfeiriadol briodol gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw. Dangosir llwybrau mynedfeydd preifat newydd â llinellau lletraws.

(3) Mae'r plan a adnewwyd yn dangos lleoliad y gefnffordd mewn perthynas â'r gwaith a awdurdodwyd sy'n cael ei ddangos ar y plan a adnewwyd.

3. Datgenir drwy hyn fod Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni:-

(1) parthed pob darn neu ran o briffordd y mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi eu cau, fod yna lwybr arall rhesymol o gyfleus ar gael, neu y bydd un yn cael ei ddarparu, cyn y bydd y darn hwnnw o'r gefnffordd yn cael ei gau; a

(2) parthed pob mynedfa breifat i fangre yr awdurdodir ei chau gan y Gorchymyn hwn, fod yna fynedfa arall resymol o hwylus ar gael i'r fangre berthnasol neu y bydd un yn cael ei ddarparu cyn i'r fynedfa breifat honno gael ei chau neu nad oes gofyn rhesymol am fynedfa newydd i'r fangre berthnasol.

4. Pan fo darpariaeth yn cael ei gwneud yn y Gorchymyn hwn er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i altro priffordd sydd wedi'i breinio yng Nghyngor Gwynedd, yna (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 268(3) o Ddeddf 1980) trosglwyddir i Gyngor Gwynedd ar ddyddiad cwblhau'r gwaith neu'r gwaith gwneud newidiadau neu ar ddyddiad caffael y tir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag altro priffordd, os yw hynny'n ddiweddarach, unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau (ac eithrio benthyciadau neu ffioedd am fenthyciadau) sydd wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru, neu a dynnir ganddynt mewn cysylltiad â'r gwaith gwneud newidiadau i briffordd.

5. Os, yn union cyn cau darn o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, y bydd unrhyw offer ymgymerwyr statudol o dan y briffordd, ynddi, arni,

drosti, ar ei hyd, neu ar ei thraws, yna, yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Priffyrdd 1980, bydd gan yr ymgymerydd hynny yr un hawliau o ran yr offer hwnnw ag a oedd ganddynt yn union cyn cau'r briffordd.

6. Yn y Gorchymyn hwn:

mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol neu'r mynedfeydd i fangreodd, yn ôl fel y digwydd;

mae "gwelliant" a "gwella" ("*improvement*") mewn perthynas â phriffordd yn cynnwys codi, gostwng neu altro'r briffordd honno mewn modd arall, a rhaid dehongli "wedi'i gwella" yn unol â hynny;

ystyr "y plan a adnewyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn rhif HA 14/1 WAG 7 sydd wedi'i farcio "Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Gwelliant Tŷ Cerrig, Gardolbenmaen) (Ffyrdd Ymyl) 2010", wedi'i lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru a'i adneuo yn Gwasanaeth Cofnodion Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd; ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487).

9. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Ionawr 2011 a'i enw fydd "Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Gwelliant Tŷ Cerrig, Gardolbenmaen) (Ffyrdd Ymyl) 2010."

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiedig 21 Rhagfyr 2010

**J COLLINS**

Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith  
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1980 p.66

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 of Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pweirau hyn bellach wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## **HIGHWAYS ACT 1980**

### **THE FISHGUARD TO BANGOR TRUNK ROAD (A487) (TY CERRIG, GARNDOLBENMAEN IMPROVEMENT) (SIDE ROADS) ORDER 2010**

**NOTICE IS HEREBY GIVEN** that the Welsh Ministers have made an Order under sections 14, 125 and 268 of the Highways Act 1980 authorising the Welsh Ministers:-

- (a) to carry out the improvement of highways;
- (b) to stop up highways or areas of highways;
- (c) to stop up private means of access to premises and
- (d) to provide new means of access to premises

all in the vicinity of the route of the Fishguard to Bangor Trunk Road (A487) at Ty Cerrig, Garndolbenmaen in the County of Gwynedd.

Copies of the Order, accompanying plan and public notice may be inspected free of charge, at reasonable hours from 6 January 2011 to 17 February 2011 or within 6 weeks from the date of publication of this notice, whichever period expires later, at the following venues:

- TPG3, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ
- Roads and Projects Division, Welsh Assembly Government, Sarn Mynach, Llandudno Junction LL31 9RZ
- Gwynedd Council  
Pencadlys Swyddfa'r Cyngor  
Caernarfon  
Gwynedd LL55 1SH
- Porthmadog Library  
29 Chapel Street  
Porthmadog  
Gwynedd  
LL49 9DS

Copies of the Order, the title of which is 'The 'Fishguard to Bangor Trunk Road (A487) (Ty Cerrig, Garndolbenmaen) (Side Roads) Order 2010' can be obtained from TPG3, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

Any person aggrieved by the making of the Order and desiring to question the validity thereof, or of any provision contained therein, on the grounds that it is not within the powers of the Highways Act 1980 or on the grounds that any requirement of that Act or of regulations made thereunder has not been complied with in relation to the Order may, within 6 weeks from the 6 January 2011, or within 6 weeks from the date of publication of this Notice if such period shall expire later, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

A copy of the draft Side Roads Order and this Notice can be viewed at [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk) (select 'Legislation', 'Subordinate legislation', 'Non-Statutory Instruments', 'Transport, Wales', Highways Act Side Roads and Compulsory Purchase Orders', '2010').

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from TPG3, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**

Transport Planning and Governance Division  
Welsh Assembly Government